# Economi Gylchol

Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti yn y strategaeth Mwy nag Ailgylchu. Ond beth yn union yw'r economi gylchol, beth yw'r manteision a'r galluogwyr, a beth yw'r heriau y gallem eu hwynebu wrth symud i'r ffordd hon o weithio?

## Beth yw'r economi gylchol?

Yn nodweddiadol, rydym yn cymryd adnoddau, yn gwneud rhywbeth gyda nhw, yn defnyddio'r hyn a wnaethom ac yna'n ei daflu pan fyddwn wedi gorffen ei ddefnyddio neu os yw wedi torri. Cyfeirir at hyn fel 'economi linol', oherwydd ei fod yn dilyn proses linol. Y broblem gyda'r dull hwn yw ei fod yn wastraffus, ac yn y pen draw, nid yw'n gynaliadwy.

Nod economi gylchol yw cau'r ddolen ar y dull llinol hwn, gan sicrhau bod cynhyrchion ac adnoddau'n cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu neu atal gwastraff rhag cael ei gynhyrchu yn y lle cyntaf, gan bethau fel cynnal a chadw a thrwsio cynhyrchion neu ddefnyddio adnoddau sy'n fioddiraddadwy. Cyfeirir at hyn weithiau fel y 5 elfen - lleihau, ailddefnyddio, ailbrosesu, adnewyddadwy ac ailgylchu.

Mae GIG Cymru yn cynhyrchu 600,000 tunnell o wastraff bob blwyddyn

## Beth yw manteision economi gylchol?

### Effaith gadarnhaol yr hinsawdd ac iechyd

Mae'r ddwy fantais hyn yn cael sylw gyda'i gilydd, oherwydd eu bod yn annatod yn gysylltiedig â'i gilydd. Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, newid hinsawdd yw'r bygythiad iechyd mwyaf sy'n wynebu dynoliaeth.

Pe bai'r sector gofal iechyd byd-eang yn wlad, hon fyddai'r 5ed allyrrydd mwyaf ar y blaned

Mae gwastraffu adnoddau yn gwneud cyfraniad enfawr at newid hinsawdd ac mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn un o'r cyfranwyr mwyaf at wastraff yn y byd. Mae'r economi linol yn llygru aer, dŵr a phridd. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar iechyd y boblogaeth ac yn cynyddu pwysau ar y sector iechyd a gofal. Mae newid i economi gylchol yn ceisio mynd i'r afael â hyn trwy sicrhau bod adnoddau a chynhyrchion yn cael eu defnyddio cyhyd â phosibl ac osgoi gwastraff.

## Arbedion cost

Canfu astudiaeth o 2015, gan McKinsey & Company a Sefydliad Ellen MacArthur, y byddai symud i economi gylchol yn hybu cynhyrchiant adnoddau Ewrop 3% erbyn 2030, gan arwain at arbedion cost o €600 biliwn y flwyddyn ac €1.8 triliwn yn fwy o safbwynt manteision economaidd eraill.

## Creu Swyddi

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan yr economi gylchol y potensial i greu dros 200,000 o swyddi newydd ym Mhrydain yn seiliedig ar ddatblygiadau presennol, yn ogystal â lleihau'r dirywiad disgwyliedig mewn cyflogaeth sgil uchel.

# Beth yw'r heriau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol?

## Allyriadau Trafnidiaeth

Mae allyriadau trafnidiaeth yn bryder amgylcheddol enfawr. Mae ffactorau lluosog sy'n cyfrannu at allyriadau trafnidiaeth yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys:

- staff a chleifion yn teithio i apwyntiadau
- cludo cynhyrchion a nwyddau gan gyflenwyr
- cerbydau'r GIG fel ambiwlansys
- teithio i gyfarfodydd

Fodd bynnag, o ganlyniad i newidiadau a wnaed mewn ymateb i'r pandemig Covid-19 gwelwyd gostyngiad mewn allyriadau trafnidiaeth yn ystod y cyfnod hwnnw a thrwy barhau a datblygu'r newidiadau hyn i ffyrdd o weithio, gallwn sicrhau system iechyd a gofal gynaliadwy.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynhyrchu tua 202k tunnell o nwyon tŷ gwydr bob blwyddyn: yr un faint â holl aelwydydd y Barri gyda'i gilydd

Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) wedi gwneud nifer o newidiadau yn y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael ag effaith amgylcheddol. Mae WAST wedi gweithredu ceir ymateb cyflym hybrid, gan greu gostyngiad o 125 tunnell o allyriadau $CO_2$ bob blwyddyn, ac wedi treialu'r defnydd o gerbydau trydan. Yn ogystal, mae WAST wedi gosod paneli solar ar gerbydau, sy'n cynhyrchu ynni ac yn negyddu'r angen i osod mannau gwefru lluosog. Darllenwch fwy amdano yma.

Daeth apwyntiadau o bell ac e-ymgynghoriadau yn fwy amlwg yn ystod y pandemig ac mae byrddau iechyd ledled Cymru yn parhau i ddefnyddio'r modelau hyn. Amcangyfrifodd ymchwil o 2021 fod e-ymgynghoriadau yn arbed rhwng 0.70-372kg $CO_2e$ fesul ymgynghoriad. Trwy ddefnyddio modelau fel Attend Anywhere, nid yn unig y bydd amser teithio staff a chleifion yn cael ei leihau ond mae hefyd yn rhoi opsiynau mwy hyblyg a chyfleus i gleifion a'r cyhoedd ar gyfer mynychu apwyntiadau.

## Cynhyrchion tafladwy ac untro

Dim ond 7.2% o ddeunydd wedi'i ddefnyddio sy'n cael ei ailgylchu yn ôl i'n heconomi ar ôl ei ddefnyddio

Defnyddir cynhyrchion tafladwy ac untro yn eang yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan eu bod yn cael eu defnyddio i leihau lledaeniad yr haint, ond mae'r rhan fwyaf o'r cynhyrchion tafladwy hyn naill ai'n mynd i safleoedd tirlenwi neu'n cael eu llosgi. Er bod rheoli heintiau yn ystyriaeth bwysig iawn, bydd angen gwneud newidiadau i leihau effaith amgylcheddol defnyddio cynhyrchion tafladwy untro. Yn ffodus, bu cynnydd calonogol yn y maes hwn y gallwn adeiladu arno i gyfrannu at ddyfodol mwy cynaliadwy.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi ail-lansio eu Cynllun Ailgylchu Cymhorthion Cerdded i helpu i adeiladu ar lwyddiant blaenorol wrth ail-ddarparu offer i'r gymuned ac atal cymhorthion cerdded diangen rhag mynd i safleoedd tirlenwi. Hyd yn hyn, mae tîm y gwasanaeth wedi gallu ailgylchu dros 1,500 o fframiau cerdded a 2,000 pâr o faglau (gwerth dros £28,000) a fyddai fel arall wedi mynd i safleoedd tirlenwi. Cliciwch yma am fwy o wybodaeth ac i ddarganfod ble mae eich man gollwng agosaf.



Gwnaeth GIG Lloegr waredu 1.4 biliwn o fasgiau wyneb rhwng dechrau'r pandemig a mis Mawrth 2021. Nod Revolution-ZERO yw disodli tecstilau meddygol untro gyda dewisiadau amgen mwy effeithiol, economaidd a chynaliadwy. Datblygodd y cwmni fasgiau wyneb y gellir eu hailddefnyddio, gynau llawfeddygol, llenni theatr llawdriniaethau a mwy. Mae'r cwmni wedi mynd y tu hwnt i fodelau ailddefnyddio safonol ac mae hefyd yn datblygu atebion ailbwrpasu ac ailgylchu. Cymerwch olwg ar sut maen nhw'n gwneud hyn ar eu gwefan.



Mae defnyddio dulliau gweithredu sy'n rhy amharod i gymryd risg yn cyfrannu at orddefnyddio cynhyrchion tafladwy, fel menig nad ydynt yn ddi-haint. Gwnaeth Ysbyty Great Ormond Street dreialu rhaglen ymwybyddiaeth addysgol ar gyfer staff i wella'r broses o asesu risg defnyddio menig nad ydynt yn ddi-haint. Dros gyfnod o chwe mis, gwelodd yr ysbyty ostyngiad cyfartalog o 36,608 o fenig yr wythnos, sy'n pwyso'r un faint â 2 ambiwlans llawn llwyth! Yn ystod y cyfnod, nid oedd unrhyw gynnydd andwyol yn gysylltiedig â defnyddio menig yn nifer yr heintiau a gafwyd yn yr ysbyty. Darllenwch fwy am y prosiect yma.

## Deunydd Fferyllol

Mae deunydd fferyllol yn cyfrannu at tua 20% o ôl-troed carbon y GIG. Amcangyfrifir bod hanner yr holl feddyginiaethau'n cael eu gwastraffu, oherwydd bod meddyginiaethau'n cael eu gor-ragnodi, nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y ffordd gywir neu nad yw pobl bellach angen meddyginiaeth nac yn defnyddio meddyginiaeth sy'n parhau i gael ei rhagnodi. Mae hyn nid yn unig yn cael effeithiau amgylcheddol ond mae hefyd yn broblem economaidd.

Ledled Cymru, cafodd 72,657,354 o eitemau eu dosbarthu gydag amcangyfrif o werth £21.6 miliwn o feddyginiaethau'n cael eu gwastraffu

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn treialu'r broses o waredu anadlyddion sy'n cynnwys hydrofflworocarbon (HFC) mewn ffordd gyfrifol mewn wyth fferyllfa yng Nghlwstwr Cymoedd Uchaf y rhanbarth. Dangosodd astudiaeth gan y clwstwr fod 90% o anadlyddion yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi trwy wastraff cartref cyffredinol. Nod y clwstwr yw ailgylchu 80% o'r holl anadlyddion a ragnodwyd yn ardal y rhaglen erbyn 2025. Gweler mwy o wybodaeth yma.



Nod y Prosiect Ocsid Nitrus ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw lleihau'r effaith amgylcheddol drwy newid y ffordd y mae nwy anesthetig ocsid nitrus yn cael ei ddarparu o system maniffold mewn pibellau i silindrau cludadwy. Mae pob ysbyty yng Nghaerdydd a'r Fro wedi dadgomisiynu'r systemau maniffold, gan arbed tua 1 miliwn litr o ocsid nitrus y flwyddyn, sy'n cyfateb i 535 tunnell o CO2. Edrychwch ar y ffilm a wnaeth yr Hyb i arddangos hyn am ragor o wybodaeth.

## Sut allwch chi gymryd rhan?

Circular Economy Innovation Communities

Nod Cymuned Arloesedd yr Economi Gylchol yw adeiladu ecosystem economi gylchol yng Nghymru. Edrychwch ar eu gwefan am adnoddau a chyfleoedd hyfforddi.

Comisiwn Bevan Commission

Mae Comisiwn Bevan wedi ffurfio rhwydwaith Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd i ddarparu ffocws ac ymdrech ar y cyd i sicrhau gostyngiad amlwg mewn gwastraff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Os hoffech chi gymryd rhan, cymerwch olwg ar eu gwefan.

Green Health Wales Iechyd Gwyrdd Cymru

Mae Iechyd Gwyrdd Cymru yn rhwydwaith o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ledled Cymru sy'n cydnabod bod argyfwng yr hinsawdd a'r argyfwng ecolegol yn argyfwng iechyd. Mae eu gwefan yn cynnwys cyfoeth o astudiaethau achos ac adnoddau i ddysgu mwy am yr hyn y gallwn ei wneud i sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy.

## Gwybodaeth ychwanegol

Os hoffech chi ddysgu mwy am yr economi gylchol a chynaliadwyedd, edrychwch ar y dolenni isod. Gallwch hefyd ddod o hyd i ddolenni i strategaethau cynaliadwyedd Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

| | |
|---|---|
| **Beyond Recyling** | Strategaeth Llywodraeth Cymru i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti |
| **What a Waste** | Adroddiad gan Gomisiwn Bevan sy'n edrych ar wastraff yn ehangach er mwyn deall gwastraff amhriodol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol |
| **What is a circular economy?** | Canllaw rhagarweiniol i'r economi gylchol gan un o rwydweithiau mwyaf blaenllaw'r DU ar yr economi gylchol |
| **Circular Economies and Sustainable Health and Wellbeing** | Adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n edrych ar effaith cyrff cyhoeddus ar iechyd y cyhoedd gan ailffocysu ar leihau ac ailddefnyddio gwastraff yng Nghymru |
| **Understanding the Circular Economy** | Mae Cymuned Arloesedd yr Economi Gylchol wedi cynhyrchu canllaw rhagarweiniol ar yr economi gylchol. |
| **Climate Change Challenge Plan** | Cynllun Cyngor Bro Morgannwg i fynd i'r afael â newid hinsawdd |
| **Stronger, Greener, Fairer** | Uchelgeisiau Cyngor Caerdydd i sicrhau rhanbarth mwy cynaliadwy |
| **Decarbonisation Action Plan** | Cynllun Gweithredu BIP Caerdydd a'r Fro i leihau allyriadau carbon GIG rhanbarthol |

Edrychwch ar ein gwefan i weld mwy o'n gwaith neu cysylltwch â ni drwy e-bostio Dylan.John4@wales.nhs.uk